## Trosolwg o'r adran Lefel A, Coleg Meirion-Dwyfor

Mae Chweched Meirionnydd a Chweched Dwyfor, Coleg Meirion-Dwyfor yn cynnig dros 30 o gyrsiau Lefel A/AS mewn ardal drydyddol wedi'u lleoli ar gampysau Dolgellau a Phwllheli. Yn 2021, roedd cyfradd llwyddo'r adran yn 99% gyda nifer uchel o fyfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion nodedig.

Mae'r adran yn ymfalchio yn llwyddiannau ei chyn-fyfyrwyr ac yn y cyfleusterau ardderchog sydd ar y safleoedd. Eleni, cafwyd buddsoddiad o £1.9 miliwn mewn labordai newydd yn Nolgellau a Phwllheli sydd o ansawdd uchel a gyda chyfarpar newydd o safon ddiwydiannol drwy gydweithrediad â'r NDA.

Mae adroddiad diweddar ALPS, sydd yn edrych ar werth ychwanegol dysgwyr (sef perfformiad yn uwch na'r targed mewn cyfnod o 3 blynedd) yn dangos fod Chweched Menai, Chweched Meirionnydd/Chweched Dwyfor yn y tri uchaf ym Môn a Gwynedd.

## Am bwy rydym ni'n chwilio?

Rydym yn chwilio am aelod brwdfrydig i ymuno ag adran llewyrchus i ddysgu Mathemateg Safon Uwch gyda chyfrifoldebau ychwanegol fel tiwtor personol / Bagloriaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar wybodaeth pwnc; y gallu i ysbrydoli dysgwyr yn ogystal ag addysgu i safon uchel er mwyn creu cyfleoedd dysgu effeithiol i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Rhaid i'r unigolyn ddangos ymroddiad i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol drwy ddefnyddio TGCh a dulliau addysgu arloesol gan fod yn gyfarwydd hefyd â dulliau addysgu profedig.

Rydym yn chwilio am aelod newydd o staff a all weithio'n dda mewn tîm, darparu gwybodaeth gyffredinol yn y maes penodol, ac sydd hefyd yn fodlon defnyddio ei faes/maes arbenigol neu ddiddordeb i ddatblygu'r adran ymhellach.

## An overview of the A Level department at Coleg Meirion-Dwyfor

Meirionnydd Sixth and Dwyfor Sixth at Coleg Meirion-Dwyfor, offers over 30 AS/A Level subjects within a tertiary area, based at the Dolgellau and Pwllheli campuses. In 2021, the department's success rate was 99% with a high number of students progressing to prestigious universities.

The department takes pride in the achievements of its alumni and the excellent facilities on both sites. This year saw a £1.9 million investment in new, high quality laboratories at Dolgellau and Pwllheli including new, industrial standard equipment in collaboration with the NDA.

A recent ALPS report, which looks at learners' added value (performance above target grade within a 3 year period), shows that the Menai Sixth and Meirionnydd/Dwyfor Sixth are in the top three highest performing educational establishments in Anglesey and Gwynedd.

## Who are we looking for?

We are looking for an enthusiastic member to join a thriving department to teach Mathematics A Level with additional responsibilities as a personal tutor and the Welsh Baccalaureate tutor. The successful candidate will have good subject knowledge; the ability to inspire learners as well as teaching to a high standard in order to create effective learning opportunities to ensure that all learners reach their full potential. The individual must demonstrate a commitment to creating a positive learning environment through the use of ICT and innovative teaching methods whilst also being familiar with proven teaching methods.

The successful candidate must be able to work well as part of a team and be willing to use his/her area of expertise or interest to develop the department further.